\Clerc/Clerk: Rhianwen Sheldon
*Cyfeiriad/Address: 27 Alltwen, Llysfaen, Bae Colwyn, Conwy, LL29 8PG*
Ffon/Tel: 07786253828
Ebost/Email: valleycommunitycouncil@gmail.com

Safle We: www.cyngor-cymuned-fali.cymru
Website: www.valley-community-council.wales

**CANLLAWIAU MYNWENT YNYS WEN**

Cyngor Cymuned Fali yw perchennog y fynwent a nhw sy'n ei rheoli. Gorfodir y rheoliadau hyn i sicrhau bod y fynwent yn le diogel i ymweld â hi ac i weithio ynddi wrth geisio ei gwneud yn fan mor hygyrch â phosibl i'r rhai llai abl. Maent hefyd o gymorth i gadw'r lle'n dwt ac yn apelgar i'r llygaid.

**1. Hawliau Claddu**

Nid yw'r Grant Hawl Claddu Neilltuedig o fewn bedd yn trosglwyddo perchenogaeth o'r tir ei hun. Erys perchenogaeth tir y fynwent, gan gynnwys wyneb y bedd gyda Chyngor Cymuned Fali.

Yn hytrach bydd gan y person a gofnodwyd gyda'r cyngor fel yr un sy'n berchen yr Hawl Claddu Neilltuedig yr hawl unigol i benderfynu pwy gaiff ei gladdu o fewn y bedd. Bydd yr Hawl Claddu Neilltuedig hefyd yn cynnwys yr hawl i gael cofeb o ddyluniad a gwneuthuriad wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor ar safle'r bedd.

**2. Personau Awdurdodedig**

Dim ond ymgymerwyr a seiri maen wedi eu cymeradwyo gan Gyngor Cymuned Fali sy'n cael gweithio yn y fynwent. Os yw'r tywydd yn caniatáu, bydd pob bedd yn cael ei dywarchu o fewn chwe mis ar ôl claddu.

**3. Cofebion**

I gael codi cofeb rhaid cael hawl neilltuedig i gladdu ar gyfer y plot dan sylw. Fel perchennog hawl claddu neilltuedig rhaid ichi roi caniatâd cyn rhoi carreg goffa ar y bedd. Rhaid trafod unrhyw newidiadau gyda Chyngor Cymuned Fali ynghyd â'r ymgymerwyr a'r seiri maen. **Gweler hefyd paragraff 7 isod.**

**4. Cofebion parhaol**

Bydd yr ymgymerwyr a'r seiri maen a gymeradwywyd yn sicrhau bod pob cofeb newydd yn

gweddu gyda'r cofebion presennol

Carreg Goffa: (Mae'r holl fesuriadau o'r maint uchaf a ganiateir)

1. Deunydd – gall fod wedi ei wneud o unrhyw garreg naturiol addas
2. Uchder – gan gynnwys y gwaelod a'r plinth, ni ddylai'r garreg goffa fod yn uwch na 915mm (3td) o lefel y ddaear
3. Lled – ni ddylai fod yn fwy na 610mm (2td) o led
4. Gwaelod – ni ddylai fod yn fwy na 610mm (2td) o led a 400mm (1td4mod) o ddyfnder
5. Trwch - dylai'r garreg fod rhwng 50-102mm (2-4 modfedd) o drwch

**5. Cofebion dros dro**

Gellir gosod croes bren dros dro ar y bedd. Petai'r groes yn dadfeilio mae gan y Cyngor yr hawl i'w symud hi.

Croes Bren:

1. Uchder – ni ddylai'r groes fod yn fwy na 915mm (3td) o'r llawr
2. Lled – ni ddylai fod yn fwy na 610mm (2td) o led
3. Gosod – argymhellir fod un rhan o dair o'i huchder o dan y ddaear i gadw'r groes yn sad.

**6. Beddau Plant a Gweddillion wedi eu Hamlosgi**

**Cofebion Parhaol** – gwelir rhif 4 ond gyda chyfyngiad uchder o ddim mwy na 610mm (2td)

**Cofebion Dros Dro** - gwelir rhif 5 ond gyda chyfyngiad uchder o ddim mwy na 610mm (2td) x 450mm (18mod) o led

**7. Rheolau sy'n ymwneud â Chofebion**

Wrth ofalu am fedd, nodwch y rheolau canlynol sydd wedi'u cyflwyno er budd POB defnyddiwr o'r mynwentydd

a) Rhaid i'r holl gofebion, planhigion ac eitemau eraill a osodir ar y beddau fod wedi'u lleoli yn ardal y garreg fedd gan adael ardal y lawnt yn glir ar gyfer mynediad, torri gwair a chynnal a chadw arall.

b) Ni chaniateir gerddi hyd llawn, cofebion na thwmpathau.

c) Mae'r holl fasys, cerfluniau, planhigion a blodau ac ati sy'n cael eu gadael ar feddau yn cael eu gadael ar risg y perchennog.

d) Rhaid gosod pob cofeb a theyrnged heb ei osod y tu mewn i'r ardal y garreg fedd.

e) Gellir tynnu heb rybudd yn ôl disgresiwn y Cyngor unrhyw gofebion neu deyrngedau anawdurdodedig sydd wedi dirywio.

f) Ni chaniateir cerrig mân rhydd

g) Dulid gwaredu sbwriel a blodau marw yn y biniau a ddarperir.

h) Ni chaniateir gosod goleuadau o unrhyw fath ar neu o amgylch unrhyw fedd.

i) Mae'r holl fasys, cerfluniau, planhigion a blodau ac ati sy'n cael eu gadael ar feddau yn cael eu gadael ar risg y perchennog.

j) Gwaherddir plannu blodau a llwyni yn y fynwent.

**8. Diogelwch**

Mae'r cyfrifoldeb am unrhyw gofeb a godir ar fedd yn gorwedd gyda'r person a enwir ar y Gweithredoedd sy'n ymwneud ag o. Dylai'r person hwnnw fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gall cofeb beryglus syrthio a chreu niwed neu anaf. Bydd Cyngor Cymuned Fali yn cynnal asesiadau risg rheolaidd a bydd unrhyw gofeb a ystyrir fel un a allai beri risg i ddiogelwch yn cael ei symud heb roi rhybudd i'r perchennog.

**9. Difrod i Feddau**

Ni fydd Cyngor Cymuned Fali yn gyfrifol am unrhyw ddifrod a achosir i fedd neu gofeb oni bai y gellir profi i'r difrod gael ei wneud wrth dorri bedd neu trwy waith cynnal a chadw. **Argymhellir bod cofebion yn cael eu hyswirio rhag difrod damweiniol neu fwriadol.**

**10. Datgladdu corff**

Yn gyffredinol bydd angen trwydded o'r Swyddfa Gartref ar gyfer datgladdu gweddillion a gladdwyd neu â amlosgwyd.

**11. Dylid nodi'r rheolau sylfaenol canlynol hefyd:**

a) Dylai unrhyw gi a ddygir i'r fynwent fod ar dennyn

b) Rhaid i berchnogion cŵn sicrhau bod unrhyw wastraff cŵn yn cael ei fagio a'i waredu yn y biniau a ddarperir.

c) Mae pob cerbyd ac eithrio cerbydau contractwr a cherbydau anabl wedi'u heithrio o brif ardal y fynwent.

d) Mae'r holl gerbydau wedi'u parcio ar y tir ar risg y perchnogion eu hunain.

e) Ni chaniateir parcio dros nos.

**Cysylltwch â chlerc y cyngor os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch. valleycommunitycouncil@gmail.com .**

Adolygwyd 30/10/24 Mabwysiadwyd gan y Cyngor ar: 20/11/2024.